# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Chwefror 2022

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat - anffurfiol (09:15-09:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09:30) (Tudalennau 1 - 3)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Gwybodaeth bellach yn dilyn trafodaethau â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys; a Gweinidogion Cyllid y Llywodraethau Datganoledig - 11 Chwefror 2022**

(Tudalennau 4 - 5)

## 3 Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pwer i Addasu): Sesiwn dystiolaeth 6

(09:30-11:15) (Tudalennau 6 - 29)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Trysorlys Cymru

Andrew Hewitt, Pennaeth Deddfwriaeth Treth, Trysorlys Cymru

Lynsey Edwards, Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau ategol:**

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Senedd Cymru
Welsh Parliament

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

(11.15)

5 Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pwer i Addasu): Trafod y dystiolaeth

(11:15–11:45)

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Gwener, 11 Chwefror 2022

Amser: 10.30 - 12.14

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12722

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS |
| Tystion: | Sir Paul Silk<br>Yr Athro Emyr Lewis, Prifysgol Aberystwyth |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Charlotte Barbour (Cynghorwr Arbenigol) |

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Rhag-gyfarfod preifat - anffurfiol (10.15-10.30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1. Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 PTN 1 – Y wybodaeth ddiweddaraf gan Gomisiwn y Senedd am yr argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor ynghylch ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2022-2023 – 2 Chwefror 2022**

**2.2 PTN 2 - Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ombwdsmon 2020-21; ac Amcangyfrif 2022-23 - 7 Chwefror 2022**

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) - Datganiad Diwygiedig o Fwriad y Polisi - 4 Chwefror 2022**

**2.4 PTN 4 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Gwybodaeth bellach a ddarparwyd gan y Gweinidog yn dilyn y sesiwn craffu ar y gyllideb ar 21 Ionawr 2022 - 8 Chwefror 2022**

## 3 Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu): Sesiwn dystiolaeth 5

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr Paul Silk; a'r Athro Emyr Lewis, Ysgol y Gyfraith, Aberystwyth, Prifysgol Aberystwyth ar y Bil Deddfau Trethi etc. (Pŵer i Addasu).

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu): Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/664/22

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Chwefror 2022

Annwyl Peredur,

Fis diwethaf ysgrifennais at y Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am fy nhrafodaethau gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys a Gweinidogion Cyllid y Llywodraethau Datganoledig, ynghylch sicrwydd a hyblygrwydd o ran cyllid diwedd blwyddyn. Gwnaethoch ofyn am ddiweddariad arall pe bai rhagor o wybodaeth am y materion hyn yn dod i law.

Bob blwyddyn, mae'r Llywodraethau Datganoledig yn cael gwybod gan Drysorlys Ei Mawrhydi am unrhyw newidiadau i'r sefyllfa gyllidebol yn ystod y flwyddyn i'w disgwyl yn Amcangyfrifon Atodol y DU. Ar 26 Ionawr, rhoddodd Trysorlys Ei Mawrhydi wybod i Lywodraeth Cymru y gallai ddisgwyl cael £178 miliwn yn ychwanegol o ganlyniad i wariant yn Lloegr. Roedd hyn yn ychwanegol i'r £270 miliwn o gyllid a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr i ymateb i'r amrywiolyn Omicron. Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Llywodraethau Datganoledig na ellid cario'r cyllid hwn drosodd (cyfanswm o £448 miliwn i Gymru), er gwaethaf y ffaith fod yr hyblygrwydd hwn yn cael ei gynnig yn y gorffennol. Rhoddwyd cyfarwyddyd hefyd i ddefnyddio'r cyllid ar brosiectau gwerth uchel.

Ar 3 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynllun Ad-daliad y Dreth Gyngor a rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru y byddai'n cael swm canlyniadol o £175 miliwn yn sgil y cynllun (a gynyddodd wedyn i £180 miliwn).

Fodd bynnag, mae'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amcangyfrif atodol, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar 8 Chwefror, yn datgelu cynnydd o £180 miliwn i adlewyrchu'r swm canlyniadol ar gyfer y cynllun Ad-daliad y Dreth Gyngor, sy'n cael ei wrthbwyso gan leihad o £189 miliwn yn ein sefyllfa ariannu gyffredinol. O ganlyniad i'r newid sylweddol hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn cael llai o gyllid ychwanegol yn yr amcangyfrif atodol nag yr hyn oeddem yn ei ddisgwyl cyn cyhoeddi'r cynllun Ad-daliad y Dreth Gyngor. Mae'n amlwg, felly, na fydd y cyllid canlyniadol yn sgil y cynllun Ad-daliad y Dreth Gyngor yn ychwanegol i'r dyraniadau cyllid dangosol blaenorol a gawsom.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae hyn wedi creu haen ychwanegol, dda i ddim o ansicrwydd ar adeg pan ydym eisoes yn wynebu heriau eithriadol. Rwyf wedi ysgrifennu ar frys gyda'r Gweinidogion Cyllid Datganoledig eraill at y Prif Ysgrifennydd i fynegi'r pryder a rannwn, i ofyn am ailgyflwyno'r cyllid hwn, ac i ofyn am y gallu i'w gario drosodd i 2022-23.

Rydym wedi gwneud apêl arall i sefydlu'r egwyddor y gellir rheoli cyllid sy'n cael ei gadarnhau mewn Amcangyfrifon Atodol ar draws blynyddoedd ariannol, yn ogystal ag unrhyw gyllid sy'n cael ei gario drosodd a ganiateir o dan drefniadau wrth gefn. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol o ystyried yr amseriad hwyr yn y flwyddyn ariannol.

Mae'r sefyllfa hon wedi dangos unwaith eto yr angen i weithio gyda'n gilydd i sicrhau system y gallwn oll fod â ffydd ynddi. Felly, rydym hefyd yn ceisio ymrwymiad gan y Prif Ysgrifennydd i gydadolygiad o brosesau cyllidebol yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn. Mae angen mwy o ragweladwyedd a sicrwydd yn y broses drwyddi draw ar Lywodraethau Datganoledig i'n caniatáu i ddefnyddio'r cyllid yn y ffordd fwyaf effeithiol, i sicrhau'r gwerth gorau am arian ac i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl.

Rwy'n croesawu cefnogaeth barhaus y Pwyllgor Cyllid, yn fwyaf diweddar yn ei argymhellion ar y Gyllideb Ddrafft, o ran pwysigrwydd sicrwydd ac eglurder mewn perthynas â chyllid gan Lywodraeth y DU, ynghyd â mwy o hyblygrwydd wrth reoli ein cyllid diwedd blwyddyn. Mae'r rhain yn hollbwysig i gefnogi proses effeithiol ar gyfer cynllunio cyllidebau a chraffu gan y Senedd.

Er gwaethaf y sefyllfa anodd a gyflwynwyd inni, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd pob cam posibl i helpu pobl ledled Cymru drwy'r argyfwng costau byw. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o gymorth yr wythnos nesaf.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon